Gwybodaeth i Gleifion

# Aciwbigiad – gofalu am eich pelen y glust argadwedig

## Gwasanaeth Ffisiotherapi

Cawsoch gynnig pelen fechan yn eich clust heddiw sydd wedi'i llunio i'w chadw am gyfnod penodol. Gall yr amser hwn amrywio o ychydig ddyddiau i ychydig wythnosau. Bydd y ddyfais wedi'i gorchuddio gan ychydig o dâp. Cofiwch ddweud wrth eich therapydd os oes gennych alergedd i dâp.

Dyma rai cyfarwyddiadau sylfaenol i alluogi i'ch croen ddioddef y belen.

Byddan nhw wedi glanhau'r rhan o'r glust lle mae'r belen i fod gyda swab alcohol cyn ei rhoi i mewn.

Ar ôl ychydig oriau, mae'n bosibl y bydd y man a ddefnyddiwyd ar gyfer y driniaeth ychydig yn dyner. Gellir disgwyl hyn yn arbennig os gofynnwyd i chi dylino'r belen.

Fodd bynnag, os bydd y croen yn ddolurus, yn goch neu'n gynnes, tynnwch y belen ar unwaith. Os na fydd hyn yn setlo a'r clust yn dal yn hynod ddolurus, trefnwch i weld eich meddyg yn fuan.

Mae'n bosibl eu bod wedi gofyn i chi dynnu'r belen cyn y sesiwn nesaf o driniaeth. Gallwch wneud hyn â llaw neu drwy ddefnyddio pâr o blycwyr aeliau.

Os bydd y belen yn agos i lwybr y clust, mae'n bosibl yr hoffech chi ddefnyddio ychydig o wlân cotwm yn y llwybr pan fyddwch chi'n gorwedd yn y gwely.

Pan fyddwch chi'n cael cawod neu'n ymolchi eich wyneb neu eich gwallt, byddwch yn ofalus wrth sychu'r croen lle mae'r belen. Ceisiwch osgoi rhwbio pen y belen.

Cofiwch ddweud wrth eich therapydd os oes gennych unrhyw broblem gyda'ch system imiwnedd.